**COFNODION O GYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLNRUG A GYNHALIWYD AR 17 MEHEFIN 2025, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhys Parry (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Richard Robinson, Ann Lawton, Philip Roberts, Gwynedd Williams, Berwyn Parry Jones, Beca Brown

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Hefin Jones

**CLERC:** Meirion Jones

**1463. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod

**1464 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad fel a nodir uchod

**1465. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

Eitem 1474 – Y Cynghorydd Cemlyn Jones

**1466. I dderbyn cofnodion cyfarfod 20 Mai 2025**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1467. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Dim

**1468. I ystyried cais am gymorth ariannol gan Glwb Rygbi Caernarfon (manylion y cais eisoes wedi gylchredeg) a cyflwyniad gan Mr Ieuan Jones a Mr Dafydd Edwards o'r clwb.**

Derbyniwyd cais am grant oddiwrth Glwb Rygbi Caernarfon a cafwyd cyflwyniad oddiwrth Mr Ieuan Jones o'r glwb ac fe eglurodd am y gwaith mae'r clwb yn ei wneud yn y gymuned gan gynnwys y gwaith gyda Ysgol Brynrefail. Adroddwyd fod nifer o ddisgyblion yr ardal yn mwynhau chawau rygbi ac fod y clwb yn eu annog i chwarae'r gem. Ar ddiwedd y cyflwyniad cafod yr aelodau gyfle i holi Mr Jones.

Ar ddiwedd y cais, diolchwyd i Mr Jones am y cais ac am baratoi'r cyflwyniad

**Penderfynwyd:** Cyfrannu £700 tuag at Glwb Rygbi Caernarfon

**1469. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1470. I ystyried problemau parcio a materion parcio anghyfrifol oddi fewn i ardal Llanrug (Cyng Beca Brown)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Beca Brown, fod cwynion wedi derbyn am fod pobl yn parcio ar y pafin mewn nifer o lefydd o amgylch Llanrug ond dros y ffordd i Siop Elaine's pan mae pobl yn parcio ar y pafin, mae yn creu anawsterau i bobl gerdded, pobl gyda pram neu gadair olwyn sydd yn golygu eu bod yn gorfod cerdded ar y ffordd fawr. Nodwyd fod un car yn gyson wedi parcio ar y glaswellt ger y gysgodfa bws.

Adroddwyd ymhellach fod parcio yn broblem ac yn gwaethygu a bydd yn cysylltu a Cyngor Gwynedd i weld beth gellir ei wneud.

Adroddwyd ymhellach fod y Sefydliad Coffa wedi gofyn os gellir gwerthu'r cae wrth ymyl y Sefydliad iddynt i bwrpas creu gofod parcio i ddefnyddwyr Y Sefydliad.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad ac aros i weld beth ddaw yn ôl gan Gyngor Gwynedd.

Fod y cyngor yn cefnogi gwerthiant y cae i'r Sefydliad ar sail byddai yn hyrwyddo llefydd parcio yn y pentref ac yn cefnogi busnesai lleol

**1471. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor y Fynwent (Cynghorydd Philip Roberts)**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r is-bwyllgor (12.6.25.) i drafod ymhellach ffurflen gais cystadleuaeth Mynwent y Fynwent sydd i'w cyflwyno erbyn Mehefin 30 . Ystyriwyd oblygiadau'r cwestiynau newydd ac ymatebion i rai o'r cwestiynau gan aelodau'r is-bwyllgor. Hyn i gyd i'w gorffen erbyn Mehefin 30.

Yn yr un cyfarfod , ac yn dilyn penderfyniad mewn egwyddor ynghynt, mabwysiadwyd, yn ffurfiol, polisi newydd ar gyfer Cofebion yn y Fynwent .

Mabwysiadwyd hefyd Polisi Bioamrywiaeth ar gyfer y fynwent gyda bwriad o gynnal ymgynghoriad gyda'r cyngor ynglŷn â gwahardd blodau plastig.

Penderfynwyd bod rhaid cael cadarnhad bod y holl waith gwaith o adnewyddu stêcs cofebion wedi'i chwblhau.

Mae'r is-bwyllgor wedi derbyn cadarnhad trwy e-bost gan y contractwyr y byddent yn cwblhau'r gwaith o uwchraddio cyflwr cofebion "categori un" erbyn diwedd Mehefin a bydd y gost yn dod o'r cyllid am 25/26.

Cynhelir asesiad risg blynyddol y fynwent gan yr ICCM yn ystod wythnos gyntaf mis Awst.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1472. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan Y Cynghorydd Avril Jones (Cadeirydd y Pwyllgor) nad oed cyfarfod o'r pwyllgor wedi bod ers cyfarfod o'r cyngor llawn diwethaf,

Fodd bynnag yn dilyn asesiad risg yn cae chware Nant y Glyn, derbyniwyd gwybodaeth fod un siglen angen ei thynnu ffwrdd yn syth oherwydd ei bod yn berygl.

Gofynnwyd hefyd am i'r cyngor ystyried dau bris a dderbyniwyd am gytundeb i glirio coed

Nodwyd nad ydi wedi bod yn bosib i'r contractwr fynd i gario allan gwaith yn y Parc Sglefrio ar hyn o bryd oherwydd gwaith sydd yn cael ei wneud ar y ffordd fawr.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

Cael contractwr i fynd i dynnu'r siglen ffwrdd yn syth

Rhoi'r gytundeb torri coed i Dragon Tree Services

Cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 8fed o Orffennaf 2025 am 18:30 drwy Zoom

**1473. I dderbyn adroddiad gan gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Mwynderau (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod.

**1474. I gymeradwyo taliad am anfoneb gan Menter Fachwen parthed cyfraniad i sefydlu Partneriaeth Dyffryn Peris ac os y caniateir fod y clerc yn cael awdurdod i drosglwyddo cyllideb o £3000 o'r gyllideb grant disgresiwn i'r gyllideb gwasanaethau cymunedol.**

**Penderfynwyd:** Awdurdodi'r taliad ac i'r clerc addasu'r gyllideb fel yn briodol

**1475. I ystyried cwyn a dderbyniwyd parthed ymddygiad ger safle bws Nant Y Glyn ac i ystyried ei dynnu ffwrdd neu adeiladau un gyda concrit. (Cyng Beca Brown)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Beca Brown ei bod wedi derbyn cwyn gan un o drigolion cyfagos o safle bws Nant y Glyn, fod pobol ifanc yn gwneud sŵn ynddo ac yn ei gicio. Roedd yr achwynydd hefyd o'r farn nad oedd defnydd yn cal ei wneud o'r lloches bws yn ogystal

**Penderfynwyd:** Hwn oedd y gwyn cyntaf i'w dderbyn am y math yma o ymddygiad a cytunwyd i fonitro'r sefyllfa. O ran defnydd o'r lloches, nodwyd fod cryn ddefnydd yn cael ei wneud ohono.

**1476. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C25/0125/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Trosi adeilad allanol i greu anecs yn gysylltiedig a'r prif eiddo
**Ymgeisydd:** Mrs Berta Rosen
**Cyfeiriad:** 3, Plas Pant Afon, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RA
**Cyfeirnod Grid:**
252527.86606191727, 362019.8691333941
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi ar yr amod fod defnydd yr anecs ddim ond at ddefnydd preswylwyr y prif eiddo ac fod amod Cynllunio yn dweud na chaiff ei ddefnyddio ar gyfer llety gwyliau byr dymor.

b) **Rhif y Cais:** C25/0388/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu tŷ newydd.
**Ymgeisydd:** Denise Griffiths
**Asiant:** Mark Davies (Cambrian Planning & Development Ltd)
**Cyfeiriad:** Bryn Hermon, Llanrug, Gwynedd, LL55 4PE
**Cyfeirnod Grid:** 253035.7812499999, 363373.343750001
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C25/0368/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Dymchwel lolfa haul presennol a chodi estyniad unllawr.
**Ymgeisydd:** Brython Hywel Sara Jones
**Asiant:** Mr H Gareth Jones (BDS Gwynedd)
**Cyfeiriad:** Dwyros Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PP
**Cyfeirnod Grid:** 253479.99999999988, 363268.9999999991
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20:35

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: